

IORWERTH (neu GERVASE) abad Talylychau ac esgob Tyddewi o 1215 hyd 1229

Enw: Iorwerth
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: abad Talylychau ac esgob Tyddewi
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Jones Pierce

Yr oedd ei ethol ef yn esgob - fe'i cysegrwyd yn Staines ar 21 Mehefin 1215, ychydig ddyddiau wedi i Magna Carta gael ei selio - yn fuddugoliaeth i ymdeimlad cenedlaethol y Cymry yn y frwydr hir ynglŷn â statws esgobion ac esgobaeth Tyddewi ac yn oruchafiaeth i bolisi [Llywelyn Fawr](#). Yr oedd Iorwerth yn r o gymeriad da ac yn Gymro pur o ran gwaed (ni wyddys ddim am ei dras) ac eto nid oedd yn anghofio nac yn anwybyddu ei ddyletswydd yn rhinwedd y llwon a dyngasai i'r Goron ac i archesgobaeth Caergaint, a bu'n mynychu cynghorau'r brenin ac yn cyfryngu rhwng y Cymry a'r Saeson ar waethaf y perygl o beidio â boddio croniclydd ei hen abaty yn Talylychau. Mewn gwirionedd, ychwanegodd yr abaty at ei gyfoeth yn fawr yn rhinwedd rhoddion a grantiau o eglwysi a ganiatawyd iddo gan Iorwerth yn ystod ei dymor fel esgob. Gadawodd argraff ddofn ar ei esgobaeth hefyd trwy ddiwygio cyfansoddiad y cabidwl ac ailadeiladu rhannau o'r eglwys gadeiriol.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

Giraldi Cambrensis Opera (1861–91), iii, 361-4

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

E. J. Newell, *A History of the Welsh Church to the Dissolution of the Monasteries* (Llundain 1895)

Jones a Freeman, *The History and Antiquities of St. David's* (1856)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q16206572](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

